



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

Bwrdd Iechyd PABM

Polisi Oriau Ymweld Hyblyg (Ysbytai Gofal Acíwt)



Awdur y Ddogfen: Tasglu Ymddiried Mewn Gofal

Cymeradwy-wyd gan: Ymddiriedwyd gan y Llywgor Gofal

Dyddiad Cadarnhau gan y Bwrdd Gweithredol: Chwefror 2015

Dyddiad Adolygu: 30 Mawrth 2016

Rhif y Ddogfen: 1

Cynnwys	Tudalen
1.0 Datganiad Polisi	3
2.0 Cwmpas	3
3.0 Nodau ac amcanion	3
3.1 Oriau Ymweld	3
4.0 Eithriadau	4
5.0 Rolau a Chyfrifoldebau	4
6.0 Diffiniadau	4
7.0 Gweithredu/Cydymffurfio â'r Polisi	5
7.1. Oriau Ymweld	5
7.2 Amserau Bwyta Neilltuedig	5
7.3 Nifer yr Ymwelwyr	6
7.3.1 Ystyriaeth Arbennig	6
7.4 Argaeledd Staff yn ystod Oriau Ymweld	6
7.5 Ymweliadau gan Fabanod, Plant a Phobl Ifanc	6
7.6 Rheoli Heintiau	6
8.0 Monitro	7
9.0 Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb	7
10.0 Cael Cymorth	7
Atodlen 1 Arwyddion Oriau Ymweld	8
Atodlen 2 Taflen Wybodaeth i Gleifion	9-10
Atodlen 4 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	11-14

1.0 Datganiad Polisi

Mae Bwrdd Iechyd PABM wedi ymrwymo'n llwyr i weithredu dynesiad person-ganoledig at ddarparu gofal iechyd ar gyfer y cleifion, a'u teuluoedd /gofalwyr (cynhalwyr), sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn credu y bydd ymateb i anghenion ein cleifion /ymwelwyr yn cryfhau datblygiad gwasanaeth gofal iechyd sy'n canoli ar bob person fel unigolyn.

Mae ein staff wedi ymrwymo i ymateb i anghenion a disgwyliadau cleifion ac maent yn deall y rôl amhrisiadwy a chwaraeir gan deulu, gofalwyr, ffrindiau a pherthnasau'r claf yn ei wellhad. Dyma'r bobl sy'n adnabod y claf orau; dyma'r rhai sy'n gallu helpu, trwy fod wrth law, i annog a sicrhau cleifion ar adegau pan fyddant yn ansicr, yn bryderus neu'n agored i niwed.

Mae'r amrywiaeth o oriau ymweld ac arferion ynghylch ymweld weithiau'n ddigon i ddrysu cleifion ac ymwelwyr, a hynny'n enwedig gan fod angen yn aml iddynt ddefnyddio gwasanaethau ar fwy nag un safle. Mae'r Bwrdd yn cydnabod felly yr angen i estyn oriau ymweld ar draws adrannau cleifion preswyl gyda golwg ar helpu teuluoedd a gofalwyr i hwyluso a hyrwyddo, lle bo'n briodol, y gofal a ddarperir.

2.0 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl adrannau cleifion preswyl sy'n cynnig gofal aciwt i oedolion yn nalgylch Bwrdd Iechyd PABM.

Cydnabyddir, wrth inni newid o drefn ymweld sydd ag amserlenni cyfyngedig at ddynesiad mwy hyblyg, y gall teuluoedd a ffrindiau cleifion deimlo ei bod hi'n haws iddynt gymryd rhan yng ngofal y cleifion, a thrwy hynny helpu'r cleifion i gael y buddion mwyaf o ofal preswyl, gan wneud y broses o'u rhyddhau adref yn fwy didor tra'n sicrhau bod unrhyw anghenion o ran gofal parhaus yn cael eu diwallu.

3.0 Nodau ac Amcanion

Cynlluniwyd y polisi gyda golwg ar symud oddi ar y trefniadau ymweld traddodiadol â'u cyfyngiadau amser at ddynesiad mwy hyblyg ac amserau ymweld estynedig.

Cydnabyddir bod angen deialog a chyfathrebiad parhaus rhwng y staff ac ymwelwyr. Dylai'r staff clinigol arddel eu barn broffesiynol ar sail doethineb a hyblygrwydd gyda golwg ar gwrdd ag anghenion ymwelwyr, perthnasau a chleifion.

3.1 Oriau Ymweld

Mae trefn ymweld hyblyg yn hyrwyddo amgylchedd lle mae'r claf yn gosod y paramedrau ymweld sydd fwyaf addas iddo/iddi'n bersonol. Y nod yn y pendraw yw cwrdd ag anghenion seicolegol ac emosiynol y claf a'r bobl hynny sy'n ffurfio ei system gefnogaeth trwy drefn ymweld hyblyg. Gellir diffinio ymwelydd fel unrhywun sydd ym marn y claf yn arwyddocaol i'w les, y byddai ei bresenoldeb yn gwella ansawdd amser y claf yn yr ysbyty.

Bydd gennym drefniadau ymweld hyblyg rhwng: -

11:00 yb ac 8.00 yh

Cynhelir y trefniant ymweld hyblyg iawn hwn trwy gydol 7 diwrnod yr wythnos.

4.0 Eithriadau

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob ardal gofal aciwt ar gyfer oedolion

5.0 Rolau a chyfrifoldebau

Mae pob aelod staff yn gyfrifol am hyrwyddo a hwyluso gofal sy'n canoli ar y person ac amserau ymweld hyblyg. Mae gofyniad serch hynny ar Brif Nyrs y Ward a'r Nyrs Arweiniol i sicrhau bod y polisi sy'n berthnasol i'w hadran wasanaeth benodol yn cael ei weithredu a bod perthnasau a chleifion yn cael eu hysbysu am y trefniadau ynghylch oriau ymweld hyblyg. Os oes modd, dylid trafod hyn gyda chleifion a'u gofalwyr yn ystod y broses o dderbyn y claf i'r ysbyty.

Fe ddefnyddir gwefan Bwrdd Iechyd PABM <http://www.abm.wales.nhs.uk/> i hysbysu ymwelwyr am oriau ymweld. Mae'r wefan yn ffordd gyflym o ddiweddarau gwybodaeth y cyhoedd.

Dylid arddangos arwyddion yn glir wrth fynedfa'r uned / ward.

Dylai taflenni fod ar gael i bob ymwelydd a chlaf.

6.0 Diffiniadau

Eithriadau: Rhydd o rwymedigaeth, h.y. ardaloedd ward nad yw'r polisi hwn mewn grym ynddynt

Hyblyg: Agored i newid, ystwyth, llai llym

Amserau Bwyd Neilltuedig: Cynllun sy'n gadael i gleifion gael eu prydau bwyd heb ymyrraeth gan weithgareddau/ ymyriadau ysbyty gan alluogi'r staff i ganolbwyntio ar gynnig cymorth i'r cleifion hynny nad ydynt yn gallu bwyta'n annibynnol ac sydd heb deulu'n bresennol i'w cynorthwyo. Annogir gofalwyr i roi cymorth gyda bwyta ac yfed ar yr adegau hyn.

Ymweld: Dod i weld rhywun yn yr ysbyty gyda golwg ar roi cefnogaeth emosiynol a seicolegol. Lle mae'n briodol, bydd ymwelwyr yn gallu cymryd rhan yn y gofal a ddarperir hefyd.

7.0 Gweithredu/Cydymffurfio â'r Polisi

7.1 Oriau Ymweld

Dylid arddangos oriau ymweld (gweler Atodlen 1) wrth fynedfa'r ardal glinigol. Mae'n hanfodol i amserau ymweld gael eu hesbonio'n glir i gleifion a'u perthnasau, a hynny os oes modd wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty. Mae taflen wybodaeth ar gael hefyd i'w dosbarthu i gleifion a'u perthnasau (gweler Atodlen 2).

Mae'r amserlen ymweld yn cynnig hyblygrwydd i gleifion a'u perthnasau. Mae'n bwysig inni egluro bod yr hawl i ymweld yn agored rhwng yr oriau a osodwyd, ac nad oes rhwymedigaeth ar neb i aros trwy gydol y cyfnodau ymweld hynny. Mae gofal iechyd person-ganoledig serch hynny'n cydnabod y rôl bwysig a chwaraeir gan ofalwyr a theuluoedd / ffrindiau ym mywydau cleifion. Dylai aelodau staff drafod gyda theuluoedd / ffrindiau a gofalwyr y rôl y carent ei chwarae wrth helpu i ofalu am eu perthynas yn ystod ei amser yn yr ysbyty. Bydd rhai efallai'n ystyried arhosiad yn yr ysbyty yn fath o seibiant o'u cyfrifoldebau beunyddiol, tra bod eraill yn awyddus i gadw at rôl weithgar.

Dylai'r staff hysbysu cleifion a'u perthnasau y bydd y staff gofal iechyd yn trefnu eu gwaith lle bo'n bosibl o gwmpas amserau ymweld i wneud pethau mor hyblyg â phosibl. Ond os nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft os bydd angen gofal, triniaeth neu archwiliad ar gleifion yn ystod yr oriau ymweld a allai ymyrryd ar yr ymweliad, dylid rhoi gwybod am hyn i ymwelwyr ymlaen llaw os gellir.

Dylid hysbysu ymwelwyr hefyd y gellir gofyn iddynt weithiau adael yr ystafell neu'r ward am gyfnod byr yn ystod ymweliadau os bydd angen i'r staff weini ar glaf.

Dylai'r staff hysbysu ymwelwyr hefyd y gofynnir iddynt ymadael dros dro yn ystod ymweliadau gan bersonél meddygol â'r ward er mwyn amddiffyn cyfrinachedd y cleifion.

Weithiau hefyd bydd rhaid i gleifion adael y ward i gael profion neu sganiadau. Dylai'r staff ddweud wrth ymwelwyr y byddant yn cael eu hysbysu am hyn ymlaen llaw os oes modd; ond efallai ar adegau bydd ymwelwyr yn cael wrth iddynt gyrraedd nad yw'r claf yn y ward.

Dylai gwybodaeth am ffreuturau/caffeterias fod ar gael i ymwelwyr i leddfu unrhyw anghyfleustra iddynt os oes rhaid iddynt aros am sbel cyn dychwelyd i'r ward.

7.2 Amserau Bwyd Neilltuedig

Dylai'r staff amddiffyn cynllun yr amserau bwyd neilltuedig fel y gall cleifion fod yn sicr o amgylchiadau sy'n eu cynorthwyo i gael y maethiad a'r buddion mwyaf posibl o'r bwyd a ddarperir ar eu cyfer.

Nodwch: Nid yw hyn yn golygu rhwystro ymwelwyr rhag dod i mewn. Mae'n bwysig inni annog perthnasau a gofalwyr i ddal i chwarae rhan ym mhrofiad amser bwyd y claf. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae

angen cymorth ar y claf i fwyta, a lle mae hyn yn rhan o brofiad bwyta arferol y claf yn awr neu yn y dyfodol.

7.3 Nifer yr Ymwelwyr

Dylai'r staff sicrhau mai dau ymwelydd yn unig ar y tro a fydd gan bob claf. Efallai y bydd angen atgoffa ymwelwyr yn gwrtais am y polisi ymweld a'r amserau ymweld hyblyg a rhoi iddynt wybodaeth am ffreuturau a chaffeterias.

7.3.1 Ystyriaethau Arbennig

Cydnabyddir bod yna adegau pan fydd mwy na dau ymwelydd wrth erchwyn gwely, ac y bydd ymwelwyr yn dymuno aros am gyfnodau hwy na'r hyn a amlinellir yn y polisi, gan gynnwys dros nos. Gall esiamplau o hyn godi pan fydd claf yn agosáu at ddiwedd ei oes, neu yn achos cleifion â gorffwylltra (dementia) neu broblemau gwybyddiaeth sy'n mynd yn ffwdanus dros nos.

Mewn sefyllfaoedd lle'r caniateir mwy na dau o ymwelwyr i gleifion, rhaid i hyn gael ei gytuno gan y Nyrs Mewn Gofal a'i hysbysu ar draws y tîm cyfan i sicrhau bod pob aelod staff yn ymateb yn briodol.

7.4 Argaeledd Staff yn ystod Oriau Ymweld

Mae'n hanfodol i aelodau staff fod ar gael i siarad â pherthnasau yn ystod oriau ymweld. Os bydd newidiad shifft yn digwydd yn ystod oriau ymweld, mae'n bwysig bod aelod staff yn cael ei neilltuo i fod ar gael i siarad â pherthnasau os gofynnir am hyn. Dylai'r aelod staff hon/hwn fod yn rhan o'r shifft sy'n dod i ben.

7.5 Ymweliadau gan Fabanod, Plant a Phobl Ifanc

Yr unig blant a ddylai gael ymweld yw wyrion/wyresau'r claf. Caniateir ymweliadau gan fabanod, plant a phobl ifanc ar ddisgresiwn y Nyrs Mewn Gofal. Rhaid i bob plentyn fod dan oruchwyliaeth aelodau o'r teulu bob amser.

Cydnabyddir y gall plant fod yn gweithredu fel gofalwyr ifanc i berthynas. Dan yr amgylchiadau hyn, gallant ymweld heb oruchwyliaeth gan aros trwy gydol y cyfnod ymweld arferol.

7.6 Rheoli Heintiau

Mae cadw rheolaeth ar heintiau mewn ysbytai'n hanfodol bwysig. Er mwyn helpu i atal heintiau rhag ymledu, mae'n rhaid i bob claf, ymwelydd ac aelod staff sy'n dod i mewn i'r ward neu'n ei gadael ddefnyddio'r gel hylendid i'r dwylo sydd ar gael yn y peiriannau dosbarthu. Rhaid i ymwelwyr ddefnyddio'r cadeiriau a ddarperir, gan beidio ac eistedd ar welyau.

Dylid hysbysu ymwelwyr y dylent gysylltu â'r person sydd mewn gofal cyn ymweld os ydynt yn ansicr ynghylch statws y claf y maent yn ymweld ag ef/hi yn yr ysbyty o ran heintiau. Dylid eu hysbysu hefyd am y rhagofalon rheoli heintiau priodol, gan gynnwys Offer a Dillad Gwarcheidiol Personol a hylendid y dwylo, y dylid eu cyflawni wrth ymweld.

Nodwch: Dylai'r staff hysbysu ymwelwyr na ddylent ymweld os oes ganddynt symptomau tebyg i rai annwyd, peswch neu ddolur rhydd / chwydu, neu os

ydynt wedi bod mewn cysylltiad â chlefyd heintus, e.e. brech yr ieir. Dylid eu cynghori i ffonio Galw Iechyd Cymru neu fynd at eu Meddyg Teulu i gael cyngor.

8.0 Monitro

Yr Ardaloedd a'r Cyfarwyddiaethau sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi hwn, a dylid anfon adborth trwy gyfrwng strwythurau rheolaeth atebol lleol. Fe adolygir y polisi hwn yn ffurfiol ar y dyddiad adolygu cytunedig.

9.0 Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Polisi hwn wedi cael ei sgrinio yng nghyswllt ei berthnasedd o ran cydraddoldeb. Ni nodwyd yr un effaith negyddol ddichonol, ac nid oes angen cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb felly. Atodir yr offeryn sgrinio wedi'i gwblhau wrth y ddogfen hon.

10.0 Cael Cymorth

Os oes angen cymorth i ddehongli'r polisi, anfonwch eich holiadau trwy gyfrwng strwythurau rheolaeth atebol lleol.

Atodlen 1 – Arwyddion Oriau Ymweld

Uwchadran Gwasanaethau Acíwt



Croeso i'n Ward

Mae ein Horiau Ymweld yn hyblyg rhwng: -

11.00 yb ac 8.00 yh

- Cewch chi ac un person arall ymweld unrhywbryd rhwng yr oriau hyn (2 ymwelydd ar y mwyaf ar y tro).
- Rydym yn croesawu eich presenoldeb a'ch mewnbwn.
- Siaradwch â'r staff os oes rhywbeth y gallwn ni ei wneud i'ch helpu gyda'ch trefniadau ymweld

Ffonau Symudol

Annogir ein cleifion i ddod â'u ffonau symudol i mewn fel y gallant gadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid. Dangoswch barch i gleifion eraill wrth ddefnyddio eich ffôn symudol.

I amddiffyn preifatrwydd pob claf, ni ddylid tynnu lluniau heb ganiatâd.

Polisi Dim Goddefgarwch

Mae gan Fwrdd Iechyd PABM bolisi Dim Goddefgarwch ynghylch unrhyw fath o gamdriniaeth gorfforol na llafar. Bydd rhaid i ymwelwyr ymadael os ydynt yn ymddwyn yn ddifriol.

Dim Ysmygu

Mae gan Fwrdd Iechyd PABM bolisi Dim Ysmygu sy'n orfodol ar bob claf, ymwelydd ac aelod staff yn ei ysbytai a'u tiroedd.

Gwybodaeth bellach Os oes cwestiynau gennych, holwch aelod o'r staff.

Os carech chi roi unrhyw adborth inni ynghylch oriau ymweld hyblyg, anfonwch e-bost inni at abm.letstalk@wales.nhs.uk



Gwybodaeth am ein
**Horiau Ymweld
Hyblyg**

Rydym yn gwybod bod ymweliadau gan berthnasau, gofalwyr a ffrindiau'n fuddiol iawn i glefion; rydym am fod yn hyblyg felly ynghylch pryd y cewch chi ymweld. Ein nod yw cadw cydbwysedd rhwng hyn ac angen y claf i orffwys, ac angen y staff i reoli'r ardal glinigol yn ddiogel ac yn effeithiol.

Oriau Ymweld

Mae ein horiau ymweld yn hyblyg rhwng: -

11:00 yb ac 8.00 yh

'Does **dim** rhaid ichi aros trwy gydol y cyfnod hwn, gan y bydd ein cleifion ar eu hennill oherwydd gorffwys.

Weithiau, yn ystod ymweliad, bydd y staff yn gofyn ichi adael yr ystafell neu'r ward os oes angen iddynt weini ar y claf. Weithiau hefyd efallai y bydd angen gofal, adsefydlu, triniaeth, prawf neu archwiliad ar y claf yn ystod oriau ymweld. Gofynnwn ichi gydweithredu fel y gallwn ddarparu'r gofal sydd ei angen ar ein cleifion. Cofiwch y cewch chi fynd i'r caffeteria os oes

angen ichi aros am sbel y tu allan i'r ward.

Amserau bwyta neilltuedig

Nid oes cyfyngiad ar ymwelwyr rhwng 11.00 ac 8.00, gan gynnwys amser cinio ac amser swper. Fe'ch anogwn i ymweld yn ystod amser bwyd i gynorthwyo'ch claf i fwyta ac yfed.

Rheoli Heintiau

Mae atal heintiau rhag ymledu mewn ysbytai'n bwysig iawn. Rydym yn erfyn ar ein holl gleifion, ymwelwyr ac aelodau staff sy'n dod i'r ward neu'n ei gadael i ddefnyddio'r gel hylendid dwylo. Chwistrellwch ychydig o gel ar eich dwylo gan ei ddylino i mewn fel hufen croen a gadael iddo sychu'n naturiol. Mae peiriannau gel dwylo wrth y fynedfa a ledled y ward.

Yn lle eistedd ar y gwely, defnyddiwch y cadeiriau sydd ar gael.

Peidiwch ymweld os oes symptomau gennych tebyg i rai annwyd, peswch neu ddolur rhydd / chwydu, neu os ydych wedi bod mewn cysylltiad â chlefyd heintus, e.e. brech yr ieir. Os oes symptomau tebyg gennych, ewch at eich Meddy Teulu i gael cyngor.

Nifer yr Ymwelwyr i bob Claf

A wnewch chi gydlynu'ch cynlluniau ar gyfer ymweld gyda'r teulu a ffrindiau, gan taw dau ymwelydd yn unig a ganiateir ar y tro i bob claf. Gwneir hyn i sicrhau na fydd nifer yr ymwelwyr yn rhwystro cleifion eraill rhag gorffwys. Os oes mwy na dau ymwelydd gan glaf, fe ofynnwn ni iddynt aros y tu allan i'r ward.

Rydym yn gwybod pa mor lesol ydyw i gleifion gael ymweliad gan eu plant a'u hwyrion; ond mae plant yn gallu tarfu ar ein cleifion. Gofynnwn felly ichi sicrhau taw dim ond plant neu wyrion/wyresau'r claf sy'n ymweld, a hynny am gyfnod byr dan ofal oedolion.

**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)
Offeryn Sgrinio i benderfynu a oes angen cynnal EqIA**

1. Beth yw eich Maes Gwahaniaeth a'ch Cyfarwyddiaeth?

Maes Gwahaniaeth: Bwrdd Iechyd PABM

Enw'r Fenter: Polisi ynghylch Oriau Ymweld Hyblyg

Cyfarwyddiaeth: Pob maes preswyl gofal aciwt i oedolion

2. Pa fenter rydych chi'n ei sgrinio ynghylch ei pherthnasedd i gydraddoldeb?

Gwasanaeth Newydd

Arolwg o Wasanaeth

Newid mewn Gwasanaeth

Strategaeth

Polisi

Arall

Manylwch:

Prosiect

Llwybr gofal

Penderfyniad cyllidol/
Arbed ynni

3. Disgrifiwch y fenter yn gryno gan gynnwys y nodau a'r amcanion, ar bwy y bydd yn effeithio, a'r hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni

Nod y polisi ynghylch oriau ymweld hyblyg yw sefydlu dynesiad mwy hyblyg at ymweld yn ein wardiau preswyl gofal aciwt i oedolion

4. I beth y mae'r fenter yn berthnasol yn bennaf?

Darpariaeth uniongyrchol gwasanaethau rheng flaen e.e. cysylltiad wyneb yn wyneb â defnyddwyr gwasanaethau

Mae'r polisi'n hyrwyddo dynesiad mwy hyblyg at ymweld gan berthnasau, ffrindiau a gofalwyr cleifion preswyl mewn wardiau gofal aciwt i oedolion ledled Bwrdd Iechyd PABM.

Darpariaeth anuniongyrchol gwasanaethau rheng flaen e.e. gwasanaeth cymorth a ddarperir o bell

Eglurwch pam

Darpariaeth anuniongyrchol gwasanaethau ystafell gefn e.e. gwasanaeth cymorth heb gysylltiad â chleifion

Eglurwch pam

5. A fyddai'r fenter hon yn cael ei chyflawni mewn partneriaeth â sefydliadau partnerol neu gontractwyr eraill yn y sector cyhoeddus?

Byddai

Na fyddai

6. Beth yw'r effaith ddichonol ar y grwpiau canlynol o bobl gan gynnwys cleifion neu'r gymuned ehangach?

Grŵp	Negyddol Uchel	Negyddol Cymedrol	Negyddol Isel	Niwtral	Positif	Anhysbys
Gwahanol grwpiau hiliol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Gwahanol grwpiau oedran	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Plant	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Dynion, menywod	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Pobl ag anableddau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Gwahanol grefyddau neu gredau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Gwahanol gyfeiriadeddau rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Ad-ddiffinio rhyw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Siaradwyr Cymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Menywod beichiog/menywod sydd wedi esgor ar blant yn ddiweddar	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						

Grŵp	Negyddol Uchel	Negyddol Cymedrol	Negyddol Isel	Niwtral	Positif	Anhysbys
Statws priodasol neu o ran partneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Gofalwyr (Cynhalwyr)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						
Gwahanol grwpiau cymdeithasol-economaidd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd y polisi hwn yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp beth bynnag fo eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu hanabledd, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu dewis iaith.</i>						

7. Beth yw'r effaith ddichonol ar staff?

Grŵp Staff	Negyddol Uchel	Negyddol Cymedrol	Negyddol Isel	Niwtral	Positif	Anhysbys
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Bydd dynesiad mwy hyblyg at ymweld yn galluogi teuluoedd a gofalwyr i gynorthwyo darpariaeth gofal lle bo'n briodol, a thrwy hynny'n gadael i'r staff ganolbwyntio ar ddarparu gofal ar gyfer y cleifion hynny â'r anghenion mwyaf cymhleth.</i>						

8. Beth yw'r effaith ddichonol ar Hawliau Dynol unigolion, ac yn benodol ar egwyddorion:

Egwyddor	Negyddol Uchel	Negyddol Cymedrol	Negyddol Isel	Niwtral	Positif	Anhysbys
Urddas	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Disgrifiwch y dystiolaeth sydd mewn bodolaeth gennych o blaid eich asesiad</i>						
Parch	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Disgrifiwch y dystiolaeth sydd mewn bodolaeth gennych o blaid eich asesiad</i>						
Tegwch	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Disgrifiwch y dystiolaeth sydd mewn bodolaeth gennych o blaid eich asesiad</i>						
Annibyniaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<i>Disgrifiwch y dystiolaeth sydd mewn bodolaeth gennych o blaid eich asesiad</i>						

9. Pa mor weladwy yw'r fenter hon i'r cyhoedd yn gyffredinol?

Tra gweladwy i'r cyhoedd

Cymharol weladwy i'r cyhoedd

Prin yn weladwy i'r cyhoedd

10. A yw'r argymhelliad hwn yn adnabod effeithiau negyddol dichonol?

Ydy Nac ydy Methu penderfynu

Os ydy

Eglurwch pam. Ydych chi wedi lliniaru'r rhain yn llwyr yn eich cynlluniau? Os oes problemau gweddilliol, bydd angen ichi gynnal EqIA llawn

Os nad ydy

Dim angen

Os ydych yn methu penderfynu

Eglurwch pam a dangoswch pa fesurau y byddwch yn eu cymryd er mwyn gallu dod i gasgliad y naill ffordd neu'r llall.

11. Penderfyniad

Angen EqIA llawn

Dim angen EqIA llawn

12. Cymeradwyo

Tîm asesu

a. Deborah Thomas

b.

c.

d.

Arweinydd y fenter:

Llofnod:

Dyddiad: